

Kier Construction Western & Wales

# The Bevan Health & Wellbeing Centre

Llywodraeth Cymru Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

ISSUE 04

**Welcome to the fourth joint edition of the Tredegar Health and Wellbeing Centre newsletter from Kier Construction Western and Wales, in partnership with Aneurin Bevan University Health Board (ABUHB).**

**We are pleased to announce that the site has officially been named as The Bevan Health & Wellbeing Centre.**

The new facility, which is due to be completed in Summer 2023, will provide a comprehensive range of Primary Care, Community, Social Care and Wellbeing services together in one place for residents.

Following a public discussion on the official name of the centre, The Bevan Health & Wellbeing Centre was chosen by Ann Lloyd CBE, Chair of Aneurin Bevan University Health Board, and Glyn Jones, former Interim Chief Executive, from a selection of suggested titles.

Ann Lloyd CBE, Chair of Aneurin Bevan University Health Board, said:

*"We received some excellent name suggestions for the new building, but The Bevan Health and Wellbeing Centre seemed the most fitting for a centre built in the hometown of the founder of the NHS."*

The site has changed dramatically since photographs were last taken back in November 2021, with an impressive steel frame and concrete flooring now in place. To keep people up to date with the development we have recently taken some new photos and video footage of the site 'beyond the hoarding' to document the construction progress.

To view these and to stay up to date on build progress, future events, and opportunities to get involved, visit the Aneurin Bevan University Health Board website at The Bevan Health and Wellbeing Centre - Aneurin Bevan University Health Board (nhs.wales)

## Project Update

Work on the new Health Centre is progressing, the envelope works (cladding, brickwork and windows) have moved forward and are coming along well with the scaffold completed around the north, east and south elevations to facilitate the works. The flat roofing areas are completed and the pitched roof construction has commenced with the timber and insulation layers, the next phase of works to these will be the a further layer of insulation, felt and batten followed by the slates moving into December and through to January. As the building becomes weather tight with the pitched roof work moving forward the internal drylining and first fix mechanical and electrical services will be commencing as the first elements of the fit out works.

## GP Service Update

Whilst works are ongoing on the Tredegar Health and Wellbeing Centre, we will still be providing services as usual and we will keep you updated on arrangements as we transition to the new build.

## Community Engagements



Welsh artist, Nathan Wyburn has been commissioned to create the artwork for the new Health and Wellbeing centre. As part of the project's community benefits, Nathan has been hosting art workshops with local schools in the area.



Here's a sneak peek of Nathan's sculpture piece that will reside in the new health centre.

We partnered up with architects IBI to deliver a design session at Deighton Primary School, whereby students got a sneak peek at what the new Health & Wellbeing Centre will look like. They also designed their 'dream school' mimicking methods used on the new Tredegar build.



Kier are also proud to have donated a defibrillator device to a community group in Ebbw Vale following an unsuspecting cardiac arrest of a young person in the area. The device has been registered on the automated external defibrillator (AED) website and available to use within the community.



The Tredegar site team welcomed 15 Coleg Gwent bricklaying students to site in December. This was a great introduction to their future trade, marking the students first time on a construction site. The group learned about career pathways, bricklaying techniques and the use of reclaimed bricks in the new build, preserving the history of the old hospital in the new Health & Wellbeing Centre.

If you would like us to consider an engagement/initiative with you, please contact Jessica O'Donnell on Jessica.odonnell@kier.co.uk



Kier Construction Cymru a'r Gorllewin

# Canolfan Iechyd a Lles Bevan

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

ISSUE 04

**Croeso i'r pedwerydd rhifyn o newyddlenni Canolfan Iechyd a Lles Tredegar gan Kier Construction Cymru a'r Gorllewin mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB).**

## Mae'n falch gennym gyhoeddi bod y safle wedi ei enwi'n ffurfiol yn Ganolfan Iechyd a Lles Bevan.

Bydd y cyfleuster newydd, a gaiff ei gwblhau yn haf 2023, yn darparu amrywiaeth cynhwysfawr o wasanaethau Gofal Sylfaenol, Cymunedol, Cymdeithasol a Llesiant ar gyfer y trigolion gyda'i gilydd mewn un lle.

Yn dilyn trafodaeth gyhoeddus am enw swyddogol y ganolfan, dewiswyd Canolfan Iechyd a Lles Bevan gan Ann Lloyd CBE, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a Glyn Jones, y Prif Weithredwr Dros Dro, o blith nifer o awgrymiadau.

Dywedodd Ann Lloyd CBE, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan:

*"Cawsom awgrymiadau bendigedig am enwau i'r adeilad newydd, ond Canolfan Iechyd a Lles Bevan oedd yr un mwyaf priodol i ganolfan yn nhref enedigol sylfaenydd y GIG."*

Mae'r safle wedi newid yn ddramatig ers i'r lluniau diwethaf gael eu tynnu nôl ym mis Tachwedd 2021, ac mae'r ffrâm ddur trawiadol a'r lloriau concrit bellach yn eu lle. Er mwyn rhannu rhai o'r datblygiadau diweddaraf, rydyn ni wedi bod yn tynnu lluniau ac yn creu fideos newydd o'r safle 'y tu ôl i'r byrddau palis' er mwyn dogfennu datblygiad y gwaith adeiladu. I weld y rhain a dilyn hynt y gwaith, clywed am ddigwyddiadau sydd ar y gweill a chyfloed i chwarae eich rhan, ewch i wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn Canolfan Iechyd a Lles Bevan - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (nhs.wales)

## Newyddion am y Prosiect

Mae gwaith ar y Ganolfan Iechyd newydd yn datblygu ac mae'r gwaith ar orchudd yr adeilad (y cladin, gwaith brics a'r ffenestri) wedi symud yn ei flaen yn dda. Mae'r sgaffaldiau ar y talwynebau gogleddol, dwyreiniol a deheuol wedi eu cwblhau er mwyn hwyluso'r gwaith. Mae'r ardaloedd to gwastad wedi eu cwblhau ac mae'r gwaith o adeiladu'r to ar oleddf wedi dechrau gyda'r haenau pren a'r deunydd inswleiddio, ac yn ystod y cam nesaf yn y gwaith yma gosodir haen bellach o ddeunydd inswleiddio, ffelt ac estyll. Bydd y llechi'n dilyn wedyn wrth i ni symud i mewn i fis Rhagfyr ac ymlaen i fis Ionawr. Wrth i'r adeilad ddod yn ddwrglos yn sgil y gwaith ar y to, bydd y gwaith leinio sych mewnol a gosodiad cyntaf y gwasanaethau mecanyddol a thrydanol yn dechrau fel elfennau cyntaf y gwaith gosod mewnol.

## Diweddariad ar y Gwasanaethau Meddyg Teulu

Tra bod y gwaith yn parhau ar Ganolfan Iechyd a Lles Tredegar, byddwn ni'n dal i ddarparu gwasanaethau fel arfer. Byddwn ni'n rhannu unrhyw newyddion am y trefniadau â chi wrth i ni bontio i'r adeilad newydd.

## Cysylltu â'r Gymuned



Comisiynwyd yr artist Cymreig, Nathan Wyburn, i greu'r gwaith celf ar gyfer y ganolfan iechyd a lles newydd. Yn rhan o fuddion cymunedol y prosiect, mae Nathan wedi bod yn cynnal gweithdai celf gydag ysgolion lleol yn yr ardal.



Dyma ragflas o gerflun Nathan a fydd yn seffyll yn y ganolfan iechyd newydd.

Buom yn gweithio mewn partneriaeth â'r penseiri IBI i gynnal sesiwn yn Ysgol Gynradd Deighton, lle cafodd y myfyrwyr gyfle i weld sut y bydd y Ganolfan Iechyd a Lles newydd yn edrych. Dyluniodd y disgyblion 'ysgol eu breuddwydion' hefyd, gan efelychu'r dulliau a ddefnyddiwyd wrth adeiladu canolfan newydd Tredegar.



Mae Kier yn falch o fod wedi cyflwyno diffibriliwr i grŵp cymunedol yng Nglynebwy ar ôl i berson ifanc yn yr ardal ddioddef ataliad y galon yn hollol annisgwyl. Mae'r ddyfais wedi cael ei chofrestru ar y wefan diffibrilwyr allanol awtomatig (AED) ac mae hi ar gael i'w defnyddio o fewn y gymuned.



Croesawodd tîm safle Tredegar 15 o fyfyrwyr gwaith brics o Goleg Gwent ym mis Rhagfyr. Roedd hi'n gyflwyniad gwych iddynt i'r grefft, a hwn oedd ymweliad cyntaf y myfyrwyr â safle adeiladu. Dysgodd y grŵp am lwybrau gyrfaol, technegau gosod brics a'r defnydd o frics wedi eu hadfer yn yr adeilad newydd er mwyn cadw hanes yr hen ysbyty yn y Ganolfan Iechyd a Lles newydd.

Os ydych chi am i ni ystyried cyfle i gysylltu/menter gyda chi, cysylltwch â Jessica O'Donnell yn Jessica.odonnell@kier.co.uk.